

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2019/20

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Gwilym O Jones

Parti: Y Grŵp Annibynnol

Ward: Llifon

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Crynodeb o Bresenoldeb
Cyngor Sir Ynys Môn	Cofnod Presenoldeb
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)	
Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	
Pwyllgor Buddsoddi A Chontractau	
Pwyllgor Cyswllt Y Sector Gwirfoddol	
Pwyllgor Safonau - Panel Penodi	
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (Cadeirydd)	
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn	
Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	
Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y gyrff allanol canlynol:

Corff allanol	Crynodeb o rôl a chyfraniad
- Fforwm Iaith Môn - Grŵp Rhanddeiliad y Safle Wylfa - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Y Fali - Llywodraethwr / Ysgol Uwchradd Bodedern - Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwy'n gweithredu fel aelod o Gyrrff Llywodraeth Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol Y Fali.

Rwyf yn aelod o Gyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll ac yn mynychu cyfarfodydd Cyngorau Cymuned Y Fali a Llanfaelog fel sylwebydd. Bum yn delio ag amrywiaeth o bynciau a materion ar ran Etholwyr yn y Ward – naill ai'n bersonol, trwy ebost neu ar y ffôn.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Bum yn delio ag amryw o faterion lleol yn ôl y galw gan gynnwys materion Cynllunio, Tai, Budd-daliadau, Priffyrdd, a.y.y.b.

4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): [Hyfforddiant](#)

5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwy'n parhau i fod ar gael i ddelio gydag unrhyw broblemau a gaiff fy etholwyr a gallant gysylltu a mi dros y ffôn, drwy lythyr neu drwy ebost.

Rwyf hefyd ar gael i drafod materion pan fyddai yn mynychu Llyfrgell Rhosneigr ar brynhawniau Mercher.

Fel aelod a Chadeirydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn, mynychais sesiynau cysgodi GWE yma mewn gwahanol leoliadau ar yr Ynys, ac yn Llanrwst.

Rwy'n parhau i fod yn Gadeirydd Papur Bro 'Y Rhwyd' sy'n gweithredu yng Ngorllewin Môn.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: [Cyngorydd Gwilym O Jones](#)

Cyngorydd Gwilym O Jones	Mehefin 2020
---------------------------------	---------------------